CYNGOR CYMUNED LLANENGAN

Clerc – Einir Wyn – *Clerk*
Fferm Cae Du, Aber-soch, PWLLHELI, Gwynedd. LL53 7HT
Ffôn: (01758) 712434
E-bost: clerc@cyngorcymunedllanengan.cymru
Gwefan: www.cyngorcymunedllanengan.cymru

Mawrth 4ydd, 2020

Annwyl Aelod,

Gwysir chi i fod yn bresennol yng Nghyfarfod Misol y Cyngor **nos Fercher, Mawrth 11eg, 2020** yng Nghanolfan Llanengan am saith o'r gloch.

RHAGLEN

1. Croeso ac Ymddiheuriadau
2. Datgan Buddiant Personol
3. Eitemau Brys (Cadeirydd/Clerc)
4. Cadarnhau Cofnodion – Chwefror 12fed, 2020
5. Ceisiadau Cynllunio (gweler rhestr drosodd)
6. **Materion yn Codi o'r Cofnodion**:
   - i) 5a) Toiledau Cyhoeddus
   - ii) 5c) Cyfoeth Naturiol Cymru – Cytundeb Torri'r Foel a Chais i'w Ffensio
   - iii) 14. Gohebiaeth: ch) Newyddlen Cymdeithas y Clercod (SLCC) – Cyfarwyddiadau Mynediad at Gynnwys Gwefannau'r Llywodraeth
   - iv) 14. Gohebiaeth: dd) Uwch Gyfreithiwr (Corfforaethol) – Hyfforddiant i Gynghorau Cymuned Aberdaron, Llanengan a Botwnnog ar y Còd Ymddygiad i Aelodau
7. **Mynwent** – Prisiau Claddu; Yr Hen Fynwent
8. **Caeau Chwarae** – Mainc Solar; Coeden ger Cae Chwarae Aber-soch
9. **Cyfrifon –** Awgrymiadau'r Is-bwyllgor Ariannol; Biniau/Trethi Tai Haf; Uned AHNE – Cronfa Datblygu Cynaliadwy; Llywodraeth Cymru – Cymorth ar gyfer Rheolaeth Ariannol a Llywodraethu yn y Sector Cynghorau Cymuned a Thref yng Nghymru 2020 – 2021; Adroddiad Atodol Drafft Panel Annibynnol Cymru ar Gydnabyddiaeth Ariannol – Yr Egwyddorion sy'n ymwneud ag Ad-dalu Costau Gofal ac Adroddiad Blynyddol 2020; Newid yn Rheolaeth PWLB; Llif Arian; Asesiad Risg ac Arbrawf Rheolaeth Ariannol Fewnol 2019 – 2020
10. **Materion Cynllunio** – Materion yn y Gymuned/Ymholiadau/Gorfodaeth; Cytiau Glan Môr; Dilyn a Darganfod; Ciosg BT; Gorfodaeth Yr Hen Iard Lo, Lôn Garmon, Aber-soch; Trigolion Lleol – Cais Cynllunio C20/0037/39/DT Sea Leys, Bwlchtocyn

11. **Materion Priffyrdd a Bwrdeistrefol** – Materion yn y Gymuned; Gorchymyn Cau Ffyrdd yn y Gymuned; Gorchymyn Cyfyngiad Cyflymder 40 m.y.a. Ffordd B4413 Llanbedrog i Fynytho
12. **Materion Hawliau Tramwy** – Torri'r Llwybrau
13. **Traethau –** Padlfyrddio ar Borth Fawr; Bin Ailgylchu; Offaxis
14. **Gohebiaeth**:
    a) ***Un Llais Cymru (ULlC)*** – Bwletin; 'Spring Clean' Cymru; Lleoedd Lleol ar gyfer Natur; Digwyddiad ULlC ar y cyd â SLCC; Cofrestrwch eich Diffibriliwr ar y Gylched Heddiw; Cynhadledd Adborth Adroddiad Cenedlaethau'r Dyfodol 2020
    b) Gwasanaaeth Economi a Chymuned – Brexit – Cyngor i Drigolion a Busnesau'r Sir
    c) Paolo Bavaresco – Coed yr Harbwr/Min-y-Don
    ch) Adran Tai ac Eiddo – Newidiadau i Bolisi Gosod Tai Cyffredin Gwynedd
    d) Clwb Moduro Harlech a'r Cylch Cyf. – Rali Goffa Merfyn Hughes (Rali Llŷn), Mawrth 14eg – 15fed, 2020
    dd) Ymgyrch Diogelu Cymru Wledig – Gwobr Pentrefi Sir Gaernarfon 2020
15. Dyfarniadau Cynllunio
16. Cadarnhau Taliadau a Derbyniadau
17. Dyddiad y Cyfarfod nesaf – nos Fercher, Ebrill 9fed, 2020

Yn gywir,

Einir Wyn

EINIR WYN
Clerc

Amg.

CEISIADAU CYNLLUNIO I'W TRAFOD YNG NGHYFARFOD MIS MAWRTH

RHIF	RHIF Y CAIS	DISGRIFIAD
1	C15/0383/39/LL	Diwygio'r Cytundeb 106 sy'n ffurfio rhan o Ganiatâd Cynllunio C15/0383/39/LL er mwyn talu swm cymudol yn lle darparu uned byw fforddiadwy ar Blot 2b – **Riverside Hotel and Restaurant, Aber-soch**
2	C20/0061/39/LL	**Cais Diwygiedig –** Dymchwel ac amnewid cwt traeth presennol – **Cwt Glan Môr Rhif 3, Borth Fawr, Aber-soch**
3	C20/0132/39/DT	Addasiadau i annedd i gynnwys codi'r to i greu ystafelloedd ynddo, ffenestr gromen a newid deunyddiau allanol – **Camgymeriad, Lôn Traeth, Aber-soch**
4	C20/0146/39/DT	Estyniad unllawr cefn – **Morfa, Llanengan**
5	C20/0158/39/LL	Dymchwel tŷ presennol a chodi un newydd – **Nyth y Môr, Bwlchtocyn**
6	C20/0164/39/AC	Diwygio Amod 2 o Ganiatâd Cynllunio C16/1336/39/LL er mwyn gostwng lefel y tŷ a gymeradwydwyd a chwblhau newidiadau mewnol – **Tir ger Anhywel, Lôn Pont Morgan, Aber-soch**
7	C20/0170/39/LL	Estyniad i adeilad toiled/cawod presennol yn cynnwys toiledau, cawodydd, storfa, man golchi llestri/dillad allanol a chanopi – **Maes Carafanau Llain Las, Llanengan**
8	C20/0176/39/LL	Dymchwel tŷ presennol a chodi un newydd yn ei le – **Cae'r Ffynnon, Fferm Pant yr Hwch, Aber-soch**